# Cyflwyniad ar Waredu Daearegol

Gwybodaeth am ein gwaith i ddelio â gwastraff ymbelydrol, a sut byddai'n gallu cefnogi twf economaidd yn eich cymuned chi



Radioactive Waste Management

Gweithio gyda'n gilydd i warchod y dyfodol

Gwaredu daearegol yw'r peth iawn i'w wneud er mwyn cymdeithas heddiw, a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n brosiect amgylcheddol arwyddocaol, ac mae manteision economaidd hirdymor a chaniatâd y gymuned yn rhan ganolog o'r broses.

# Cynnwys


5 Pam mae angen gwaredu daearegol ar y Deyrnas Unedig?

9 Beth yw Cyfleuster Gwaredu Daearegol?

13 Yr ateb mwyaf diogel

17 Beth yw manteision bod yn gartref i Gyfleuster Gwaredu Daearegol?

21 Y broses leoli

25 Gweledigaeth y Gymuned a Buddsoddi yn y Gymuned

28 Diogelu'r amgylchedd

32 Ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd



Gorsaf bŵer niwclear Sizewell B

# Pam mae angen gwaredu daearegol ar y Deyrnas Unedig?

# Safleoedd yn y Deyrnas Unedig lle mae gwastraff yn cael ei storio a'i waredu ar hyn o bryd





- Ailbrosesu tanwydd wedi'i ddefnyddio
- Adweithyddion pŵer niwclear
- Ymchwil a Datblygu ym maes ynni niwclear
- Amddiffyn
- Cynhyrchu tanwydd a chyfoethogi wraniwm
- Meddygol a diwydiannol
- Cyfleuster gwaredu gwastraff

# Pam mae angen gwaredu daearegol ar y Deyrnas Unedig?

**Mae tua un rhan o bump o drydan y Deyrnas Unedig yn cael ei gynhyrchu gan bŵer niwclear. Mae gweithgareddau ymchwil, amddiffyn, diwydiannol, meddygol a chynhyrchu trydan yn creu gwastraff ymbelydrol. Mae angen i ni greu atebion arloesol i reoli'r gwastraff hwn sy'n cyrraedd safonau diogelwch heddiw, ac a fydd yn ein diogelu ymhell i'r dyfodol.**

Mae consensws rhyngwladol mai'r ateb parhaol mwyaf diogel ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yw ei storio ar wahân yn ddwfn o dan y ddaear mewn craig solet, drwy rwydwaith o storfeydd a thwneli. Mae hyn yn cael ei alw'n waredu daearegol.

Mae'r Deyrnas Unedig yn arloesi ym maes technolegau niwclear. Yma yr agorwyd yr orsaf bŵer niwclear fasnachol gyntaf yn y byd. Mae technoleg niwclear wedi arwain at fanteision mawr ers hynny, gan gefnogi mesurau amddiffyn cenedlaethol a chreu trydan am dros 60 mlynedd.




## Beth mae angen i ni ei wneud nawr?


Ar hyn o bryd, mae gwastraff yn cael ei storio ar y tir mewn dros 30 o safleoedd ar hyd a lled y Deyrnas Unedig. Mae'r storfeydd hyn ar wyneb y tir yn gallu cael eu cadw'n ddiogel am ddegawdau lawer, ond mae angen eu cynnal a'u cadw'n gyson er mwyn sicrhau eu bod mewn cyflwr da ac yn ddiogel, gan fod rhywfaint o'r gwastraff yn dal yn ymbelydrol am gannoedd o filoedd o flynyddoedd. Mae Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn ateb parhaol ar gyfer gwastraff o'r fath.

Rydyn ni am gydweithio â chymunedau i ddod o hyd i safle addas ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol (y Cyfleuster).




Storfa Gwastraff Lefel Ganolraddol

# Beth yw Cyfleuster Gwaredu Daearegol?




# Beth yw Cyfleuster Gwaredu Daearegol?

## Bydd Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn ddarn sylweddol o seilwaith y Deyrnas Unedig, gyda'r rhan fwyaf o'r cyfleuster yn cael ei adeiladu rhwng 200 a 1000 o fetrau o dan y ddaear, a bydd ei arwynebedd ar y tir tua 1 cilomedr sgwâr.

**Mae gwaredu daearegol** yn golygu rhoi'r gwastraff mewn cynwysyddion pwrpasol, a fydd wedyn yn cael eu gosod mewn twneli a storfeydd gannoedd o fetrau o dan graig solet.

Dyma'r dull sy'n cael ei ffafrio mewn llawer o wledydd eraill, gan gynnwys **Canada** (www.nwmo.ca/), **y Ffindir** (www.posiva.fi/en), **Ffrainc** (www.andra.fr), **Sweden** (www.skb.com/) a'r **Swistir** (www.nagra.ch/en). Mae'r gwledydd hyn wrthi'n prysur ddatblygu eu Cyfleuster Gwaredu Daearegol eu hunain.




Mae gwaredu daearegol yn bosib diolch i dechnoleg, gwyddoniaeth a pheirianneg o safon fyd-eang. Mae hyn yn cynnwys:

- cadw'r gwastraff ymbelydrol ar wahân mewn twneli a storfeydd wedi'u selio yn ddwfn o dan y ddaear, rhwng 200 a 1000 o fetrau o dan wyneb y tir
- rhwystro'r ymbelydredd rhag lledaenu wrth iddo ddadfeilio'n naturiol dros amser

- rhwystro ymbelydredd rhag cyrraedd yr wyneb byth mewn lefelau a allai achosi niwed

Mae gwastraff ymbelydrol solet yn cael ei becynnu mewn cynwysyddion diogel, sydd wedi'u gwneud o fetel neu goncrid fel arfer. Yna bydd yn cael ei osod mewn craig sefydlog gannoedd o fetrau o dan wyneb y tir, gyda chlai neu sment o amgylch y cynwysyddion. Mae hyn yn cael ei alw'n Ddull aml-rwystr.




Hefyd, yn y tymor hir:

- fydd dim angen cynnal a chadw'r Cyfleuster yn gyson
- bydd y Cyfleuster yn gwarchod y gwastraff rhag terfysgaeth neu ryfel
- bydd y Cyfleuster yn gwarchod y gwastraff rhag prosesau naturiol, fel newid yn yr hinsawdd

Pan fydd y gwaith wedi dod i ben, bydd y Cyfleuster yn cael ei selio'n barhaol fel na fydd angen gwneud unrhyw beth arall i'w gadw'n ddiogel.

# Yr ateb mwyaf diogel




Derbyn cynhwysydd gwastraff gwag 500 litr sydd wedi'i wneud o ddur gwrthstaen, cyn ei lwytho â Gwastraff Lefel Ganolraddol

# Yr ateb mwyaf diogel

Mae consensws rhyngwladol mai gwaredu daearegol yw'r ateb parhaol mwyaf diogel ar gyfer delio â gwastraff ymbelydrol.

## Rheoliadau llym i sicrhau ei fod yn ddiogel

Mae gan y Deyrnas Unedig reoliadau llym, annibynnol ac effeithiol ar hyn o bryd ar gyfer pob elfen o'r broses o reoli gwastraff ymbelydrol.

Bydd rheoleiddwyr niwclear ac amgylcheddol yn sicrhau bod Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn cyrraedd y safonau trwyadl angenrheidiol er mwyn diogelu'r amgylchedd a sicrhau diogelwch a diogeledd ym mhob cam o oes y Cyfleuster.


Yn syml iawn, os na ellir dangos ei fod yn ddiogel, ni chaiff ei adeiladu.

Mae gwastraff eisoes yn cael ei becynnu i'w waredu. Yn RWM, rydyn ni'n asesu cynigion i becynnu gwastraff mewn cynwysyddion sydd wedi'u creu'n arbennig (mae'r rhain yn cael eu galw'n becynnau gwastraff) er mwyn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddio ar gyfer gwaredu daearegol.

## Amddiffyn pobl a'r amgylchedd yw ein prif flaenoriaeth

Byddwn yn cyflwyno dadleuon diogelwch ar gyfer pob agwedd ar y Cyfleuster – o gludo'r gwastraff i'r cyfleuster i gynllunio, adeiladu a gweithredu'r Cyfleuster yn y tymor hir ar ôl ei gau.

**Y cysyniad aml-rwystr**




# Trwyddedau

Bydd angen i ni gael y trwyddedau angenrheidiol gan y rheoleiddwyr ar gyfer yr holl weithgareddau perthnasol, gan gynnwys drilio tyllau turio dwfn, adeiladu, cludo, gweithredu a chau'r Cyfleuster.

Er mwyn i'r rheoleiddwyr annibynnol gymeradwyo'r gwaith ar y safle, bydd yn rhaid i ni allu dangos y bydd y Cyfleuster a'r system gludo yn ddiogel ac yn diogelu'r amgylchedd yn y tymor hir. Er enghraifft, os byddai'n dod i'r amlwg bod safle'n anaddas ar unrhyw adeg, byddai'r gwaith ar y safle hwnnw'n stopio.

# Beth yw manteision bod yn gartref i Gyfleuster Gwaredu Daearegol?



# Beth yw manteision bod yn gartref i Gyfleuster Gwaredu Daearegol?

## Manteision economaidd a chymunedol

Bydd buddsoddiad yn llifo i gymuned sy'n gartref i Gyfleuster Gwaredu Daearegol. Bydd yno gannoedd o swyddi sy'n talu'n dda bob blwyddyn am dros ganrif. Bydd prosiectau lleol yn elwa o Gyllid Buddsoddi Cymunedol, a bydd modd gwella seilwaith a chyfleusterau cyhoeddus yn y tymor hir.



### Swyddi a sgiliau

Bydd cannoedd o bobl yn adeiladu ac yn gweithredu Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Bydd y mwyafrif helaeth o'r rhain yn gwneud gwaith sy'n gofyn am sgiliau, ac felly'n cael cyflog uwch na'r cyflog cyfartalog yn y Deyrnas Unedig.

Gyda chefnogaeth i sefydlu sylfaen sgiliau yn lleol, gallai llawer o'r swyddi hynny fynd i bobl o'r gymuned leol. Gallent fod yn swyddi mewn meysydd fel diogelwch a diogeledd, diogelu rhag ymbelydredd, dylunio peirianneg, cefnogaeth wyddonol a thechnegol, adeiladu a gweithrediadau.



### Buddsoddi mewn seilwaith

Bydd y gwaith o ddatblygu, adeiladu, gweithredu a chau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn costio biliynau o bunnoedd, a bydd yn arwain at fuddsoddi sylweddol mewn seilwaith yn yr ardal leol.

Gallai'r gwelliannau gynnwys datblygu rhwydweithiau ffordd a rheilffordd, llyfrgelloedd, ysgolion a thai newydd, gwell mynediad i'r rhyngrwyd, datblygu cyfleusterau cymunedol fel canolfannau chwaraeon a neuaddau pentref, a mannau amgylcheddol fel parciau, llwybrau troed a llwybrau beicio.

## Cefnogaeth gymunedol

Bydd cyfleoedd ar gael i'r gymuned o'r foment y bydd y broses leoli'n cael ei lansio, nes bydd yn dod i ben. Ychydig iawn o ddatblygiadau sy'n cynnig y potensial hwn dros gyfnod mor hir.

Bydd RWM yn gweithio gyda'r gymuned sy'n gartref i'r Cyfleuster, i'w helpu i wireddu ei gweledigaeth ei hun ar gyfer lles cymdeithasol ac economaidd, er mwyn cydnabod ei gwasanaeth hanfodol i'r wlad.

# Y broses leoli



# Y broses leoli

**Dod o hyd i safle ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol fydd y broses gyntaf yn y Deyrnas Unedig a fydd yn gofyn am ganiatâd y gymuned ar gyfer prosiect o'r maint hwn.**

Does dim modd adeiladu Cyfleuster Gwaredu Daearegol heb gael caniatâd y gymuned. Bydd y broses leoli'n cael ei llywio gan yr egwyddorion canlynol:

## Diogelwch yn gyntaf

Mae amddiffyn pobl a diogelu'r amgylchedd yn hollbwysig. Yn syml iawn, os na ellir dangos ei fod yn ddiogel, ni chaiff ei adeiladu.

## Partneriaeth

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â chymunedau i gyflwyno Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Mae hyn yn golygu:

- bydd proses deg a thryloyw sy'n bodloni anghenion cymunedau
- ei bod yn rhaid i'r ddaeareg fod yn addas, a bod y gymuned yn fodlon bod yn gartref i'r Cyfleuster, er mwyn gallu datblygu Cyfleuster Gwaredu Daearegol
- gall unrhyw un fynegi diddordeb mewn gwaredu daearegol. Does dim angen i bobl fod yn berchen ar dir na ffurfio grwpiau cyswllt er mwyn gwneud hyn
- bydd unigolion a sefydliadau yn gallu bod yn rhan o'r broses, ac elwa o fuddsoddiad cymunedol heb orfod ymrwymo i Gyfleuster Gwaredu Daearegol
- byddwn ni'n sicrhau bod pobl yn cael cyfle i gael ateb i'w cwestiynau
- byddwn ni'n ystyried sut gall Cyfleuster Gwaredu Daearegol ategu gweledigaeth y gymuned ar gyfer yr ardal
- ein bod ni hefyd yn gwybod bod angen cymuned fodlon a chefnogaeth yr awdurdod lleol er mwyn i'r broses ganiatâd lwyddo
- y gall cymunedau dynnu'n ôl o'r broses, ac os byddan nhw'n gwneud hynny, na fydd modd adeiladu Cyfleuster Gwaredu Daearegol
- bydd cefnogaeth ar gael i helpu pobl i ddeall yr holl faterion
- na fydd yn rhaid i gynghorau neu unigolion a fydd yn cymryd rhan yn y prosiect ysgwyddo'r costau a gytunwyd.

## Hyblygrwydd

Bydd cymunedau'n rhan ganolog o'r broses leoli ac unrhyw benderfyniadau a fydd yn cael eu gwneud. Byddwn ni'n gweithio gyda'ch cymuned chi ar gyflymder sy'n adlewyrchu'ch anghenion a'ch dymuniadau chi. Byddwn ni'n ceisio adlewyrchu cymaint o elfennau â phosib o'r gymuned, gan ystyried buddiannau amgylcheddol, gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol yr ardal a'i hamrywiaeth.

## Mynd ati i ddewis safle

Wrth chwilio am safle, bydd pob math o ffactorau'n cael eu hystyried, gan gynnwys:

- diogelwch
- y gymuned
- yr amgylchedd
- trafnidiaeth
- ymarferoldeb peirianyddol
- cost

Bydd yr amodau daearegol mewn safle posib yn cyfrannu'n sylweddol at nifer o'r ffactorau hyn, yn enwedig o ran diogelwch yn y tymor hir.

# Gweledigaeth y Gymuned a Buddsoddi yn y Gymuned

# Gweithio gyda Chymunedau

| 1 – 5 mlynedd | 10 – 15 mlynedd | 100 mlynedd a mwy |
|---|---|---|
| **Pobl**<br>Sgyrsiau cychwynnol, gweithgor, sefydlu partneriaethau â chymunedau, cyflwyno gwybodaeth | Datblygu gweledigaeth, cyflwyno gwybodaeth, rhoi cyllid a chefnogaeth i bob cymuned<br>Cyflawni cynlluniau lleol o ran manteision a buddsoddi | Parhau i fuddsoddi yn y gadwyn gyflenwi ac mewn sgiliau, seilwaith ac ati |
| **Lleoliad**<br>Ymchwil desg a gwerthuso’r safle | Archwiliadau safle, a dylunio a chynllunio’r safle<br>Dewis safle a gwneud y penderfyniad terfynol | Adeiladu, gweithredu a chau |
| **Buddsoddi**<br>**£1m**<br>Hyd at £1m y flwyddyn i bob cymuned | **£2.5m**<br>Hyd at £2.5m y flwyddyn i bob cymuned yn ystod ymchwiliadau tyllau turio | **I’w gadarnhau**<br>Pecyn buddsoddi sylweddol ar gyfer y gymuned a fydd yn gartref i’r Cyfleuster |

# Gweledigaeth y Gymuned a Buddsoddi yn y Gymuned

Byddwn ni'n gweithio gyda chymunedau a fydd yn cymryd rhan yn y broses leoli, i ddatblygu gweledigaeth gadarnhaol ac uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol.

## Gweledigaeth y Gymuned

Bydd Gweledigaeth y Gymuned yn llywio'r buddsoddiad yn y cymunedau a fydd yn gweithio gyda ni.

Byddai Buddsoddiad Ychwanegol Sylweddol yn cael ei wneud mewn cymuned sy'n gartref i'r Cyfleuster. Gallai'r prosiect hwn gefnogi gweledigaethau lleol a rhanbarthol fel rhan o gynllun y gymuned i sicrhau'r dyfodol mae'n dymuno ei gael. Gallai'r buddsoddiad gynnig manteision i bawb.

## Buddsoddi yn y Gymuned

Yn ogystal â'r Buddsoddiad Ychwanegol Sylweddol a ddaw yn sgil datblygu'r Cyfleuster, bydd cyllid ar gael i gymunedau wrth iddyn nhw gymryd rhan yn y broses leoli.

I ddechrau, bydd hyd at £1 miliwn ar gael i bob cymuned, bob blwyddyn. Bydd y ffigur hwn yn cynyddu i £2.5 miliwn i bob cymuned, bob blwyddyn, pan fydd gwaith manwl i Nodweddu'r Safle yn digwydd. Gallai prosiectau gynnwys gwella lles y gymuned, cyfleoedd i ddatblygu sgiliau newydd a gwella'r amgylchedd a mannau cyhoeddus.

Byddwn ni'n helpu cymunedau i wneud yn fawr o'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y Cyfleuster i feithrin sgiliau, i gefnogi busnesau lleol, i agor y drws i farchnadoedd newydd ac i ddatblygu economi gytbwys ar gyfer y dyfodol.

Bydd y Cyfleuster yn denu buddsoddiad i'r ardal leol a'r rhanbarth cyfagos.

Byddwn ni'n ceisio gwneud y broses o ymgeisio am gontractau mor hawdd â phosib, yn enwedig i fusnesau bach a chanolig, a fydd yn gallu ennill gwaith a chynllunio ar gyfer dyfodol llewyrchus.

# Diogelu'r amgylchedd



# Diogelu'r amgylchedd


## Datblygu ac adeiladu Cyfleuster Gwaredu Daearegol yw un o brosiectau amgylcheddol pwysicaf ein cenhedlaeth. Un o amcanion RWM yw sicrhau bod Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn cefnogi dyheadau cymuned i ddiogelu a gwella eu hamgylchedd lleol.

Yn yr un modd ag unrhyw brosiect mawr arall, rydyn ni'n cydnabod y bydd rhywfaint o effeithiau ar yr amgylchedd lleol. Mae'n bosib y bydd mwy o gerbydau'n mynd a dod, neu fwy o sŵn a llwch yn ystod y gwaith adeiladu er enghraifft. Rydyn ni'n deall y bydd pobl o bosib yn poeni am y datblygiadau newydd, a'r hyn mae'n ei olygu iddyn nhw.


Byddwn ni'n gweithio'n agos gyda chymunedau er mwyn deall eu pryderon, a datblygu mesurau priodol i roi sylw i'r pryderon hynny.




**Cyfleoedd i gael tir o well ansawdd drwy wella ardaloedd diffaith neu o ansawdd gwael. Manteision posib o ran bioamrywiaeth ac ansawdd y dirwedd**



**Gwelliannau posib i gyflenwadau cyfleustodau, prosesau rheoli llifogydd a systemau draenio lleol**



**Bydd y rhan fwyaf o'r cyfleuster gannoedd o fetrau o dan y ddaear, sydd felly'n lleihau'n sylweddol yr effaith ar yr amgylchedd**



**Helpu i ddiogelu hawliau tramwy lleol, gan warchod treftadaeth**



**Byddwn ni'n ceisio sicrhau bod y gwaith yn amharu cyn lleied â phosib ar drafnidiaeth**

Bydd y rhan fwyaf o'r cyfleuster gannoedd o fetrau o dan y ddaear. Fodd bynnag, byddwn ni'n sicrhau bod y cyfleusterau ar wyneb y tir yn integreiddio'n iawn i'r dirwedd neu'r treflun lleol, a bod y gwaith yn amharu cyn lleied â phosib ar drafnidiaeth.



Cyfleusterau ar wyneb y tir mewn labordy tanddaearol yn Aspo, Sweden
(llun gan SKB)

Byddwn ni'n barod i fanteisio ar gyfleoedd i wella'r amgylchedd lleol. Gallai cyfleoedd o'r fath gynnwys y canlynol: glanhau a chlirio hen safle diwydiannol, gwella ansawdd y dirwedd a bioamrywiaeth, datblygu rhwydwaith hawliau tramwy lleol, gwarchod asedau treftadaeth lleol a gwella seilwaith cymdeithasol (fel ysgolion a chyfleusterau gofal iechyd) er mwyn cefnogi'r boblogaeth leol.

Er enghraifft, mae prosiectau Cyfleuster Gwaredu Daearegol yn y Ffindir a Ffrainc wedi cefnogi cynlluniau lleol a oedd o fudd i'r amgylchedd. Yn Eurajoki, y Ffindir, mae Plasty Vuojoki wedi cael ei adfer, gan sicrhau dyfodol hirdymor ased pwysig o safbwynt treftadaeth ac archaeoleg. Yn Bure yn Ffrainc, mae'r Ecotheque wedi cael ei adeiladu, a fydd yn gyfleuster pwysig ar gyfer ymchwil amgylcheddol a storio samplau yn y tymor hir.

# Ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a’n gwerthoedd



# Ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd

**Ein gweledigaeth ni yw creu dyfodol mwy diogel drwy reoli gwastraff ymbelydrol yn effeithiol, er mwyn amddiffyn pobl a diogelu'r amgylchedd.**

**Ein nod yw cyflwyno Cyfleuster Gwaredu Daearegol a chynnig atebion i reoli gwastraff ymbelydrol.**

Rydyn ni wedi sefydlu set o werthoedd sy'n disgrifio'r math o sefydliad rydyn ni am fod. Rydyn ni'n mynd ati i ddefnyddio'r gwerthoedd hyn wrth ddatblygu'r sefydliad a'n pobl, sy'n rhan ganolog o'n gwaith a nodwyd yn y ddogfen hon. Rydyn ni'n ystyried y gwerthoedd wrth asesu pa mor dda rydyn ni'n perfformio fel unigolion ac fel sefydliad.

## Ein gwerthoedd

### Proffesiynol

Rydyn ni'n arbenigwyr yn ein maes, ac yn gweithredu'n onest ac yn effeithlon i sicrhau'r atebion gorau.

### Diogel

Rydyn ni wedi ymrwymo i gyrraedd y safonau uchaf o ran diogelwch, diogeledd a diogelu'r amgylchedd.

### Agored

Rydyn ni'n agored ac yn cyfathrebu mewn ffordd syml sy'n gwella dealltwriaeth ac yn hybu cydweithio.

### Dysgu

Rydyn ni'n dysgu'n barhaus, yn rhannu gwybodaeth ac yn meithrin cysylltiadau sydd o fudd i bawb.



# Darllen mwy am waredu daearegol

Mae'r ddogfen hon yn rhan o set rydyn ni wedi'i pharatoi i roi rhagor o wybodaeth i chi am ein cynlluniau ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol. Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am y broses o ddod o hyd i safle ar gyfer Cyfleuster Gwaredu Daearegol, rydyn ni hefyd wedi cyhoeddi'r ddwy ddogfen ganlynol:

## Canllawiau i Gymunedau

Canllaw i gymunedau sy'n egluro'n fanwl sut byddwn ni'n gweithio gyda chymuned barod, a beth sy'n rhan o'r broses.

## Gwerthuso Safle

Dogfen ymgynghori sy'n egluro sut byddwn ni'n gwerthuso addasrwydd safleoedd, ac yn gofyn am safbwyntiau ar hynny.

Mae'r tair dogfen ar gael ar ein gwefan:
gwaredu daearegol

Gwaredu daearegol yw'r peth iawn i'w wneud er mwyn cymdeithas heddiw, a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae'n brosiect amgylcheddol arwyddocaol, ac mae manteision economaidd hirdymor a chaniatâd y gymuned yn rhan ganolog o'r broses.

## Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth am waith y Deyrnas Unedig i ddelio â gwastraff ymbelydrol

Anfonwch e-bost at
**gdfenqcymru@nda.gov.uk**

Ffoniwch **0300 0660 100**

Dilynwch ni ar Twitter
**@rwm_gdf_uk**
**@rwm_community**

neu ewch i
**gwaredu daearegol**

Radioactive Waste Management

RWM, Version 2 - 01/2019